# COFNODION
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 9fed o Fawrth 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Cadeiriodd Ynyr Ellis yn ei gyfarfod gyntaf fel Cadeirydd, ddiolchodd i Sara Williams am ragori ei chyfnod fel cadeirydd am wyth mis ychwanegol yn dilyn y pandemig.<br>Croesawodd pawb i'r cyfarfod, yn bresennol heno roedd Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).** |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Derbyniwyd datganiadau gan SP ac LJ ar bwynt 12 (C) sef Ceisiadau am roddion |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Nid dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2021** |
| | a) **<u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br><br>Cais gan SP I gywiro pwynt 8 o'r cofnodion fel -<br>Gan nad yw lleoliad y gweithredoedd gwreiddiol yn amlwg, gofynnodd am ganiatâd yr aelodau iddi wneud trefniadau i dderbyn gweithredoedd newydd os bydd angen.<br>Cynigiodd GW gywirdeb gweddill y cofnodion gyda LJ yn eilio, cytunodd pawb.<br><br>b) **<u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>Yn cael eu trafod islaw |

*Llofnodwyd gan........................................................................... Dyddiad.................................................*

| | |
|---|---|
| **6.** | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | Esboniodd y clerc ei bod wedi ceisio a chysylltu â Swyddog Gorchwylio Cyflymder Cymunedol sawl gwaith ers y cyfarfod yn fis Chwefror I geisio trefnu cychwyn y gorchwylio ond hyd yn hyn heb lwyddo.<br><br>Y clerc i barhau i wneud trefniadau. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais:** C21/0092/43/DT<br>**Lleoliad:** Tyn Y Mynydd, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LP<br>**Bwriad:** Dymchwel sied ardd bresennol a chodi adeilad gardd newydd ar yr un lleoliad<br><br>Derbyniwyd sylwadau gan GW bod y to yn ymweld yn uwch nac beth oedd wedi cofnodi ar y cais - Y clerc i yrru'r sylwadau i'r Adran Gynllunio a gofyn iddynt sicrhau bod y cais yn cael ei ddilyn yn llythrennol - gan nad oedd yr Aelod Lleol yn bresennol i drafod y mater, y clerc i gysylltu â gofyn am adborth bellach hefyd gofyn iddo yrru unrhyw sylwadau pellach i'r adran. |
| **8.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Adroddodd SP ei bod erbyn hyn wedi darganfod digon o dystiolaeth i gadarnhau mae'r Cyngor Cymuned yw perchnogion y tir i ddechrau achosion gyda'r cwerylwr yn y maes parcio.<br><br>Adroddodd ymhellach iddi dderbyn cytundeb gan yr heddwas byddent yn anfon y rhybudd ar ran yr aelodau felly ni fydd angen aelod yn bresennol.<br><br>Esboniodd ei bod hefyd wedi derbyn cadarnhad gan Swyddog Cyfreithiol y Cyngor Sir bydd modd i'r clerc lofnodi'r rhybudd ar ran y Cyngor.<br><br>Gofynnodd am gadarnhad eto gan yr aelodau iddi wneud trefniadau i dderbyn gweithredoedd newydd os bydd angen. Cytunodd pawb. |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adrodded SP bod gwaith i arbed tamprwydd yn y Ganolfan y parhau. Ychwanegodd bydd cost y gwaith yn debygol o fod yn sylweddol uwch na nodwyd yn flaenorol.<br><br>Esboniodd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth bod y Swyddog Cyfreithiol oedd yn flaenorol yn trefnu'r Les ar gyfer y Ganolfan bellach wedi ymddiswyddo a bod Swyddog newydd yn ei lle. Ychwanegodd ei bod wedi ceisio cysylltu â'r Swyddog newydd ond hyd yn hyn heb gael llwyddiant. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad................................................*

| | |
|---|---|
| | Y Clerc i barhau ceisio cysylltu â'r Swyddog perthnasol. |
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) **<u>TORRI GWAIR Y FYNWENT</u>**<br><br>Y clerc i wneud trefniadau i dderbyn ceisiadau tendro erbyn mis Ebrill.<br><br>b) **<u>SP – DIFFYGION I OLAU STRYD LON Y PLAS</u>**<br><br>Y clerc i adrodd am y broblem i'r Cyngor Sir<br><br>c) **<u>LJ – YSWIRIANT Y CYNGOR</u>**<br><br>Cais i ychwanegu'r faril blodau ar y groesffordd yn Llithfaen fel un o asedau'r Cyngor. Y clerc i wneud ymholiadau gydag yswiriant y Cyngor ar gost ei hychwanegu.<br><br>d) **<u>GJ – CWYN AM DYLLAU YN Y FFORDD</u>**<br><br>Esboniodd GJ bod tyllau wedi ail ymddangos ar y ffordd yn dilyn dŵr yn llifo rhwng y Cae Chwarae a Lon Rhosydd yn Llifaen.<br>Y clerc i adrodd y broblem i'r Cyngor Sir. |
| **11.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | a) **CRYNODEB O BRIF DDARPARIAETHAU DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 AR GYFER Y SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREF**<br>Rhannwyd y wybodaeth ymlaen llaw, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>b) **NEWYDDLEN ETHOLIADOL LLC - CHWEFROR**<br>Rhannwyd y wybodaeth ymlaen llaw, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>c) **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – CHWEFROR 2021**<br>Rhannwyd y wybodaeth ymlen llaw, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>d) **CRONFA DATBLYGU GYNALIADWY AHNE LLŶN**<br>Rhannwyd y wybodaeth ymlaen llaw, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad..................................................*

| 12. | CYLLID |
|---|---|

a) **CYFRIFON 2020/21**

Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad ar ragamcanion.
Cynigiodd SP eu cywirdeb gyda GJ yr eilio a phawb yn cytuno.

Nodwyd nad yw'r rhoddion yn ymddangos yn y cyfrifon tan y mis nesaf

b) **TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF**

| **Cyfrif Cyfredol 01/01/21 – 28/02/21** | | |
|---|---|---|
| Taliadau - | £160.00 | Cyflog Clerc (Ionawr) |
| | £14.00 | Treuliau Clerc (Ionawr) |
| | £160.00 | Cyflog Clerc (Chwefror) |
| | £14.00 | Treuliau Clerc (Chwefror) |
| **Balans** | | **£8,394.78** |

| **Cyfrif Cadw 07/01/21 – 06/03/21** | |
|---|---|
| Derbyniadau - | 0.07 |
| **Balans** | **£2,660.73** |

c) **CEISIADAU AM RODDION**

Trafodwyd yr holl geisiadau am roddion am y flwyddyn gyfredol
Nodwyd nid oedd SP ac LJ wedi cymryd rhan yn y drafodaeth wrth drafod ??????

Penderfynwyd:

| | |
|---|---|
| £1,000.00 | Hafod Ceiri |
| £2,000.00 | Ganolfan, Llithfaen |
| £1,700.00 | Cae Chwarae, Llithfaen |

d) **TALIADAU A GYMERADWYWYD YN Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| £160.00 | Cyflog y Clerc |
| £14.00 | Treuliau'r Clerc |
| £1,000.00 | Hafod Ceiri |
| £2,000.00 | Ganolfan, Llithfaen |
| £1,700.00 | Cae Chwarae, Llithfaen |

| 13. | TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF |
|---|---|
| | Cyfarfod rhithiol 13/04/21 |

*Llofnodwyd gan.............................................................................................Dyddiad..................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | |
|---|---|
| | |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad...................................................*